



Enghreifftiau o gynllun Creu Coetir Glastir

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi dwy enghraifft ddamcaniaethol er mwyn helpu cynllunwyr cofrestredig i gwblhau cynllun Creu Coetir Glastir.

Cynllun plannu newydd bychan gyda chymysgedd plannu Bioamrywiaeth Frodorol yw'r enghraifft gyntaf. Mae'r safle plannu arfaethedig yn dod o fewn haen sensitifrwydd (llain glustogi Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) a haen Canllawiau Arbennig (ardal tirwedd hanesyddol).

Mae'r ail enghraifft yn dangos cynllun plannu arfaethedig newydd mwy gyda chymysgedd plannu Cymysg Gwell. Mae'r safle plannu arfaethedig yn dod o fewn dwy haen sensitifrwydd (llain glustogi Heneb Gofrestredig a chynefin â blaenoriaeth a nodwyd) a dwy haen â chanllawiau arbennig (Gwiwerod Coch a Dalgylch Sensitif i Asid).

Ceir canllawiau ychwanegol i'ch helpu i gwblhau cynllun Creu Coetir Glastir.

- Mae'r **Canllawiau Creu Coetir Glastir** yn dangos i chi sut i ymdrin â sensitifrwydd mewn ardal blannu arfaethedig newydd.
- Mae'r **ddogfen "sut i gwblhau" cynllun Creu Coetir Glastir** yn rhoi gwybodaeth am sut i gwblhau cynllun Creu Coetir Glastir.

Mae'r mapiau ar gyfer yr enghreifftiau o Greu Coetir Glastir yn seiliedig ar fapiau GeoPDF Llywodraeth Cymru. Ceir canllawiau i'ch helpu i greu map Creu Coetir Glastir.

Cynllun Creu Coetir Glastir – Enghraifft 1

Rhif Cyfeirnod y Cwsmer (CRN)	A*****
Rhif cyfeirnod y Mynegiad o Ddiddordeb (EOI)	*****

1. Manylion yr eiddo

Enw eiddo'r coetir newydd		*****	
Rhif cyfeirnod y safle (SRN)		*****	
Enw cyswllt		Statws	Dewiswch (Perchennog, tenant, rheolwr)
E-bost		Rhif ffôn cyswllt	
A oes gennych reolaeth dros y tir?		Oes ✓	
Cynllunydd rheoli			
E-bost		Rhif ffôn cyswllt	
Enw'r Asiant a Chwmni (os yw'n berthnasol)			
E-bost		Rhif ffôn cyswllt	
A yw'r cynllunydd wedi cynnal ymweliad safle?		Ydy ✓	
Ardal Creu Coetir Glastir (hectarau)		1.06ha	
Math o gymysgedd plannu'r Creu Coetir Glastir		Bioamrywiaeth Frodorol	
Cyfeirnod Grid Cenedlaethol chwe digid ar gyfer yr ardal Creu Coetir Glastir		*****	
Tref agosaf		*****	
Awdurdod lleol (safle plannu newydd)		*****	
A yw hwn yn gynllun Creu Coetir Glastir ar y cyd?		Nac ydy ✓	
Ticiwch i ddatgan y byddwch yn gwneud cais am wiriad Cod Carbon Coetiroedd o fewn 24 mis o gymeradwyo'r cais (gorfodol ar gyfer cymysgedd Carbon Brodorol coetir Creu Coetir Glastir)		Na fyddaf ✓	
A ydych chi'n bwriadu hawlio taliad cynnal a chadw Creu Coetir Glastir?		Ydw ✓	
A ydych chi'n bwriadu hawlio taliad premiwm Creu Coetir Glastir blynyddol?		Ydw ✓	

Ardaloedd plannu newydd yn y safleoedd canlynol (Hectarau) – llenwch yr ardaloedd sy'n hysbys yn unig

Ardal Ddynodedig	Ardal (ha)
a. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) / Safle Arfaethedig (SoDdGA arfaethedig)	-
b. SoDdGA sydd â Gorchymyn Cadwraeth Natur (Adran 29 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981)	-

c.	Parc Cenedlaethol	-
d.	Safle Treftadaeth y Byd	-
e.	Heneb Gofrestredig (SAM)	-
f.	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)	-
g.	Safle "Natural 2000" (e.e. <i>ardaloedd cadwraeth arbennig neu ardaloedd gwarchodaeth arbennig</i>)	-

1. Gweledigaeth ac amcanion hirdymor

Disgrifiwch eich gweledigaeth hirdymor ar gyfer y cynllun plannu newydd

Bydd y cynllun plannu brodorol newydd wedi'i sefydlu'n dda gyda 1,600 o goed/hectar. Bydd yn cynnig cynefin gwerthfawr newydd ar gyfer ffawna coetir (yn enwedig adar o'r coetir) a bydd yn creu cyflenwad o goed tân i'r perchnogion.

Nodwch yr amcanion ar gyfer y cynllun plannu newydd

1.	Darparu cyflenwad cyson o goed tân er mwyn gwresogi cartref y perchennog
2.	Ehangu SoDdGA y dderwen uchaf er mwyn cynyddu'r ardaloedd o gynefin yn y coetir, yn enwedig ar gyfer adar o'r coetir e.e. gwybedogion brith, cnocellod y coed
3.	Cadw'r hawl dramwy ganiataol ar agor

2. Effeithiau posibl y cynllun plannu newydd

Haen sensitifrwydd *	Taflen Parsel Tir / Rhif y Tir	Disgrifiad o'r haen yn y cynllun plannu newydd	Sut caiff yr haen ei drin (yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU)	A oes angen ymgynghori ar gyfer yr haen hon	Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad yn cael effaith ar y cynllun Creu Coetir Glastir
SoDdGA â llain glustogi o 300m	*****	Mae'r cynllun plannu newydd wrth ymyl SoDdGA ***** derwen yr ucheldir i'r de orllewin	Bydd y cynllun plannu newydd yn clustogi ac yn ymestyn SoDdGA coed derw presennol yr ucheldir	Cysylltodd swyddog Glastir â swyddog cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru – mae'r cynllun plannu newydd wrth ymyl SoDdGA. Ymateb i'r ymgynghoriad – bydd y cynllun plannu newydd o fudd i wydnwch y SoDdGA drwy ehangu'r ardal o goetir brodorol y safle	E-bost gan y swyddog cadwraeth ynghlwm
Amgylchedd hanesyddol: Tirwedd hanesyddol	*****	Mae'r cynllun plannu newydd arfaethedig o fewn tirwedd hanesyddol *****	Ymgynghorwyd ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd am gyngor ar y dirwedd hanesyddol	Ymateb yr Ymddiriedolaeth Archeolegol lleol - ni fydd y cynllun plannu newydd yn cael effaith ar y dirwedd hanesyddol	Ymateb WAT i'r ymgynghoriad ynghlwm

4. Dyluniad y cynllun plannu newydd

Disgrifiad cryno o'r safle plannu newydd	Mae'r safle plannu newydd ar laswelltir asid wedi'i lled-wella ar ucheldir, a ddefnyddiwyd ar gyfer pori defaid ar 350m asl ac ar bridd podsolaidd. Mae'r ffens o amgylch yr ardal plannu newydd yn wan.
Paratoi'r tir cyn plannu	Bydd y coed yn cael eu plannu drwy ddull plannu mewn holltau. Nid oes angen paratoi'r tir ymhellach.
Dyluniad y cynllun plannu newydd	Bydd y dderwen fes ddigoes yn cael ei phlannu mewn grwpiau o 15 i 40 ar dir uchel i'r dwyrain o'r ardal blannu newydd arfaethedig; bydd y bedw llwyd, crafol a llwyni yn cael eu plannu mewn grwpiau clystyrog wrth ymyl y SoDdGA ac o amgylch y ffin. Bydd y coed cyll a'r ddraenen wen yn cael eu plannu o dan y coed derw aeddfed yn agos at y SoDdGA.
Math o stoc i'w plannu a maint y coed/llwyni	Bydd y coed a'r llwyni yn stoc galed 1+1 (wedi eu gwreiddio); maint y coed – 40-60cm; maint y llwyni – 30-45cm
Amddiffyn y coed - pa fath o gysgodfeydd coed / gwarchodwyr troellog a fydd yn cael eu defnyddio a pham?	Caiff yr holl goed eu hamddiffyn gan warchodwyr troellog a chansenni; caiff y llwyni eu hamddiffyn gan gysgodfeydd llwyni a physt.
Ffensio (da byw)	Bydd ffens newydd o amgylch ffin y coetir (heblaw am ddarn o'r ffin ddeheuol) a bydd yn cydymffurfio â manyleb ffensio'r Glastir.
Amddiffyn ceirw (os yw'n broblem)	Nac ydy
Tir agored	Bydd 2m o dir agored yn cael ei gadael ar hyd yr hawl dramwy ganiataol ar hyn o bryd sef tir agored na ellir ei fapio sy'n llai na 0.1ha. Bydd 1,600 o goed/ha i'w plannu o hyd.
A yw'r cynllun plannu newydd o fewn ardal mynediad agored?	Nac ydy
A oes coed sefydlog yn bresennol?	Mae 10 coeden aeddfed wrth ymyl y SoDdGA a ni fydd unrhyw blannu o dan y llinell drip. Bydd y coed yn cael eu plannu'n fwy agos at ei gilydd, gan sicrhau bod 1,600 o goed/ha yn cael eu plannu.
Amseru'r plannu newydd	Bydd y coed a'r llwyni'n cael eu plannu rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth.

5. Monitro a chynnal a chadw'r safle plannu newydd

Ymgyrch cynnal a chadw	Beth y mae angen ei gynnal a'i gadw?	Pwy fydd yn cynnal a chadw'r safle plannu newydd?	Pryd fydd y gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud?
Rheoli llystyfiant o amgylch y coed	Cynnal a chadw llystyfiant (yn enwedig glaswellt, mieri) o amgylch y coed	Bydd perchnogion yn defnyddio contractwr ardystiedig er mwyn rhoi chwynladdwr cymeradwy o amgylch y coed a'r llwyni	Dwywaith bob blwyddyn ym mis Mai a mis Awst nes y bydd y coed wedi sefydlu
Ailosod coed	Caiff coed sydd wedi marw yn y cynllun plannu newydd eu tagio a bydd yr un rhywogaeth o goed yn eu disodli er mwyn sicrhau bod 1,600 o goed/ha.	Perchnogion	Tagio coed bob blwyddyn ym mis Awst a mis Medi Ailosod coed rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth bob blwyddyn nes bod yr holl goed wedi'u plannu ar y gyfradd stoc lawn (1,600 o goed/ha)
Ffensio	Gwirio'r ffens o amgylchedd y cynllun plannu newydd ac atgyweirio unrhyw ddifrod er mwyn sicrhau bod y stoc wedi'u cadw	Perchnogion	Bob blwyddyn am gyfnod o 12 mlynedd y contract Creu Coetir Glastir
Amddiffyn coed	Gwirio bod yr holl gysgodfeydd coed yn ddiogel ac wedi'u gosod yn syth, a bod y gwarchodwyr yn amddiffyn y coed yn gywir. Mae angen cael gwared ar llystyfiant e.e. glaswellt o'r tu mewn i gysgodfeydd coed.	Perchnogion	O leiaf un ymweliad safle bob blwyddyn
Cael gwared ar amddiffynwyr coed	Cael gwared ar amddiffynwyr coed pam fod yr holl goed wedi sefydlu, ac na all cwningod a llygod y gwair wneud difrod i goesau'r coed rhagor.	Perchnogion	Rhwng blynyddoedd 5 ac 8

Ffyrdd a llwybrau drwy'r goedwig	Torri'r gwair ar hyd yr hawl dramwy ganiataol	Perchnogion	Bob blwyddyn
---	--	-------------	--------------

6. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Unigolyn neu sefydliad	Dull o gysylltu	Dyddiad y cysylltwyd	Dyddiad y cafwyd adborth	Eu hymateb	Eich camau gweithredu
Enw 1	Ymweliad gan yr ymgeisydd	25/01/2018	26/01/2018	Dim gwrthwynebiadau	
Enw 2	Ymweliad gan yr ymgeisydd	25/01/2018	28/01/2018	Mae Enw 2 yn cerdded ci'r teulu ar hyd yr hawliau tramwy ganiataol yn rheolaidd, a gofynnodd am sicrwydd y bydd y llwybr yn cael ei chadw ar agor	Yn adran 3 y cynllun Creu Coetir Glastir, bydd yr hawliau tramwy caniataol yn cael ei dorri bob blwyddyn
Mae'r cynllun plannu newydd mewn lleoliad anghysbell ac nid oes eiddo cyfagos yn edrych drosto.					

7. Cynllun Gweithredu

Rhif Cyfalaf	Cyfeirnod y ddalen	Parsel Tir	Cyfeirnod Map (e.e. GWC 001)	Cyfeirnod y Gwaith Cyfalaf	Rhif y Gwaith Cyfalaf	Rhywogaethau (gan gynnwys tir agored wedi'i fapio)	Rhywogaethau %	Swm Amcangyfrifedig
1a	*****	****	GWC001	Bioamrywiaeth frodorol	801	Derwen fesddigoes	50	1.06ha
						Bedwen lwyd	30	
						Criafolen	10	
						Collen	5	
						Draenen wen	5	
1a	*****	****	GWC002	Ffensio	595			750m


8. Gwybodaeth ofynnol er mwyn cefnogi dilysrwydd y cynllun Creu Coetir Glastir

Dogfennau	Ynglwm: Ydy / Nac Ydy
Cynllun Creu Coetir Glastir	Ydy
Map o'r ardal blannu/ardaloedd plannu	Ydy

Caniatadau ac ymatebion i'r Ymgynghoriad	Wedi'u cyflwyno: Do / Naddo / Ddim yn berthnasol
Cyfoeth Naturiol Cymru: Caniatâd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Amherthnasol
CADW: ymateb o fewn 100m o Heneb Gofrestredig	Amherthnasol
Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol	Do
Dogfennau ychwanegol e.e. arolwg ecolegol, ymgynghoriad cymunedol	E-bost swyddog cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymatebion i'r ymgynghoriad e.e. Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol dros 2ha	Naddo

Gall methu â chyflwyno'r holl wybodaeth ofynnol yn y cam hwn arwain at oedi yn ystod proses wirio'r cynllun Creu Coetir Glastir.

Enghraifft 2 Map Creu Coetir Glastir - cymysgedd bioamrywiaeth frodorol



Cynllun Creu Coetir Glastir – Enghraifft 2

Rhif Cyfeirnod y Cwsmer (CRN)	A*****
Rhif cyfeirnod y Mynegiad o Ddiddordeb (EOI)	*****

1. Manylion yr eiddo

Enw eiddo'r coetir newydd		*****	
Rhif cyfeirnod y safle (SRN)		*****	
Enw cyswllt		Statws	Dewiswch (Perchennog)
E-bost		Rhif ffôn cyswllt	
A oes gennych reolaeth dros y tir?		Oes ✓	
Cynllunydd Rheoli			
E-bost		Rhif ffôn cyswllt	
Enw'r Asiant a Chwmni (os yw'n berthnasol)			
E-bost		Rhif ffôn cyswllt	
A yw'r cynllunydd wedi cynnal ymweliad safle?		Ydy ✓	
Ardal Creu Coetir Glastir (Hectarau)		41.70ha	
Math o gymysgedd plannu'r Creu Coetir Glastir		Creu Coetir Glastir Cymysg Gwell	
Cyfeirnod Grid Cenedlaethol chwe digid ar gyfer yr ardal Creu Coetir Glastir		*****	
Tref agosaf		*****	
Awdurdod lleol (safle plannu newydd)		*****	
A yw hwn yn gynllun Creu Coetir Glastir ar y cyd?		Nac ydy ✓	
Ticiwch i ddatgan y byddwch yn gwneud cais am wiriad Cod Carbon Coetiroedd o fewn 24 mis o gael eich cais wedi'i gymeradwyo (gorfodol ar gyfer cymysgedd carbon brodorol coetir Creu Coetir Glastir)		Byddaf ✓	
A ydych chi'n bwriadu hawlio taliad cynnal a chadw Creu Coetir Glastir?		Ydw ✓	
A ydych chi'n bwriadu hawlio taliad premiwm Creu Coetir Glastir blynyddol?		Ydw ✓	

Ardaloedd plannu newydd yn y safleoedd canlynol (hectarau) – llenwch yr ardaloedd sy'n hysbys yn unig

Ardal Ddynodedig	Ardal (ha)
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) / Safle arfaethedig (SoDdGA arfaethedig)	Nac ydy
SoDdGA sydd â Gorchymyn Cadwraeth Natur (Adran 29 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981)	Nac ydy
Parc Cenedlaethol	Nac ydy
Safle Treftadaeth y Byd	Nac ydy

Heneb Gofrestredig (SAM)	Ydy (o fewn llain glustogi)
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)	Nac ydy
Safle "Natural 2000" (e.e. <i>ardaloedd cadwraeth arbennig neu ardaloedd gwarchodaeth arbennig</i>)	Nac ydy

2. Gweledigaeth ac amcanion hirdymor

Disgrifiwch eich gweledigaeth hirdymor ar gyfer y cynllun plannu newydd
<i>Bydd y cynllun plannu newydd yn blanhigfa fasnachol o gonwydd sefydledig sy'n gweddu i'r dirwedd o gwmpas. Bydd y llydanddail a blennir yn gwella bioamrywiaeth, cynyddu cysylltedd cynefinoedd yn y coetir ac yn clustogi'r cyrsiau dŵr.</i>

Nodwch yr amcanion ar gyfer y cynllun plannu newydd	
1.	Rheoli'r cynllun plannu newydd gan ddefnyddio technegau coedamaeth trylwyr er mwyn tyfu pren o ansawdd da
2.	Teneuo'r cynllun plannu newydd ar gyfnodau cyson er mwyn dechrau creu incwm rheolaidd i'r perchnogion
3.	Cynnal a gwella nifer y gwiwerod coch (caiff niferoedd y gwiwerod coch eu monitro gan Fforwm Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru)
4.	Sicrhau bod y coetir yn gweddu i'r dirwedd o gwmpas, sy'n Ardal Tirwedd Arbennig a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol.
5.	Diogelu llain glustogi glannau'r nant sy'n llifo drwy'r goedwig
6.	Sicrhau nad yw'r plannu newydd yn cael effaith ar yr Heneb Gofrestredig sydd 90m i'r dwyrain o'r cynllun plannu newydd

3. Effeithiau posibl y cynllun plannu newydd

Haen sensitifrwydd *	Taflen Parsel Tir / Rhif y Tir	Disgrifiad o'r haen yn y cynllun plannu newydd	Sut caiff yr haen ei thrin (yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU)	A oes angen ymgynghori ar gyfer yr haen hon	Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad yn cael effaith ar y cynllun Creu Coetir Glastir
Cynefin â blaenoriaeth	*****	Dengys yr haen glaswelltir iseldir yn rhan o barsel tir *****	Mae'r ardal sydd wedi'i nodi ar GeoPDF y Creu Coetir Glastir fel cynefin â blaenoriaeth yn ymddangos fel glaswelltir wedi'i wella – ffotograffau ynghlwm fel tystiolaeth	Anfonodd y swyddog Glastir luniau o'r cynefin â blaenoriaeth at arbenigwr cynefinoedd Cyfoeth Naturiol Cymru – cadarnhaodd nad yw'n gynefin â blaenoriaeth ac y gellir plannu arni	E-bost gan arbenigwr cynefinoedd Cyfoeth Naturiol Cymru
Heneb Gofrestredig â llain glustogi	*****	Mae'r cynllun plannu newydd 90m o Heneb Gofrestredig (SAM)	Dilyn ymateb CADW i'r ymgynghoriad	Gofynnodd CADW am o leiaf 10m o lydanddail ar hyd ffin gogledd-ddwyreiniol y coed	Ymateb CADW i'r ymgynghoriad ynghlwm
Dalgylch sy'n sensitif i asid	***** ***** ***** ***** *****	Mae'r cynllun plannu newydd mewn dalgylch dŵr sy'n methu	Bydd y cynllun yn dilyn gofynion pellach yng nghanllawiau'r dalgylch sy'n sensitif i asid (gan gynnwys 20% o dir agored) Bydd llai na 10% o wern yn cael eu plannu	Nac oes	-
Craidd Gwiwerod coch	Fel yr uchod	Gwyddwn fod gwiwerod coch yn y goedwig gerllaw	Bydd llydanddail yn cynnwys rhywogaethau bach wedi'u hadu a bydd y cymysgedd o rywogaethau'n cynnwys sbriws Norwy	Nac oes – defnyddiwyd taflen ffeithiau'r Cynllun Creu Coetir Glastir	-

Haen sensitifrwydd *	Taflen Parsel Tir / Rhif y Tir	Disgrifiad o'r haen yn y cynllun plannu newydd	Sut caiff yr haen ei drin (yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU)	A oes angen ymgynghori ar gyfer yr haen hon	Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad yn cael effaith ar y cynllun Creu Coetir Glastir
Nentydd	*****	Tri chwrs dŵr drwy'r ardal blannu newydd (pob un yn llai na 2m o led)	Plannu llain glustogi glannau'r nant bob ochr i'r cyrsiau dŵr Plannu 1,600 coeden/ha ar gyfer cysgod ceiniogog	Nac oes	-
Ardal Tirwedd Arbennig	***** ***** ***** ***** ***** *****	Mae'r plannu newydd arfaethedig yn Ardal Tirwedd Arbennig dyffryn *** (dynodiad gan yr awdurdod lleol)	Cynnwys cyngor gan yr awdurdod lleol ar yr Ardal Tirwedd Arbennig. Nid yw'r cynllun plannu newydd yn amlwg o'r dirwedd sydd o gwmpas, ac nid yw'n weladwy o olygfannau gerllaw. Caiff llydanddail eu plannu ar ochr ddeheuol o'r cynllun plannu newydd gyda phedair coeden dderw aeddfed.	Ymgynghorwyd â'r awdurdod lleol a gynghorodd na ddylid cael unrhyw flociau plannu arunig a dylid plannu llydanddail er mwyn gwella'r cynefinoedd presennol.	Ymateb gan yr awdurdod lleol
Cyflenwad dŵr preifat	*****	Mae cyflenwad dŵr preifat mewn eiddo sydd wrth ymyl y cynllun plannu newydd	Bydd y cyflenwad dŵr yn cael ei glustogi gan 50m o dir agored.	Nac oes	-

4. Dyluniad y cynllun plannu newydd

Disgrifiad cryno o'r safle plannu newydd	Mae'r coetir newydd ar safle tir llwyd rhwng 120m ac 140m uwchben lefel y môr - mae pedwar cae o laswelltir parhaol ac un maes o redyn trwchus (parsel tir 5678). Mae coetir hynafol a lled-naturiol ar hyd y ffin ddeheuol
Paratoi'r tir cyn plannu	Bydd chwynladdwr cymeradwy yn cael ei chwistrellu ar redyn yn yr haf cyn plannu. Bydd y ddaear yn cael ei baratoi cyn plannu er mwyn cynnig safleoedd plannu sy'n rhydd o chwyn a chyflawnir hyn drwy aredig a phentyrru. Bydd yr holl waith yn dilyn canllawiau arfer gorau. Caiff unrhyw ardaloedd lle mae clystyrau o goed yn bodoli eisoes yn cael eu gadael, a bydd yr ardaloedd hynny'n cael eu heithrio o'r cynllun. Bydd y gwaith o baratoi'r ddaear yn dilyn y canllawiau Coedwigaeth a Dŵr a Choedwig a Phridd.
Dyluniad y cynllun plannu newydd	Mae map o ddyluniad y cynllun plannu newydd yn dangos sut mae'r cynllun plannu newydd yn gweddu i'r dirwedd o amgylch. Bydd yr holl gonifferau'n cael eu plannu fel blociau arwahanol - caiff sbriws Sitca eu plannu ar y tir sydd ychydig yn uwch i'r gogledd ac i'r dwyrain, a chaiff y ffynidwydden Douglas a'r sbriwsen Norwy eu plannu i'r de ac i'r gorllewin. Bydd llydanddail cymysg yn cael eu plannu ar hyd y ffin ddwyreiniol, ar hyd y ffin ddeheuol wrth ymyl y coetir hynafol a lled-naturiol wrth ymyl y llwybr mynediad ac fel llain glustogi afonol ar hyd y cyrsiau dŵr.
Math o stoc i'w plannu a maint y coed/llwyni	Bydd y conifferau, llydanddail a'r drain gwyn yn stoc 20–40cm wedi'i dyfu o gelloedd.
Amddiffyn y coed - pa fath o gysgodfeydd coed / gwarchodwyr troellog a fydd yn cael eu defnyddio a pham?	Bydd y coed llydanddail a'r llwyni'n cael eu hamddiffyn gan warchodwyr troellog a chansenni. Caiff conifferau eu gadael heb eu gwarchod.
Ffensio (da byw)	Bydd ffens newydd o amgylch ffin y coetir a fydd yn cydymffurfio â manyleb ffensio'r Glastir.
Amddiffyn ceirw (os yw'n broblem)	Dim ceirw yn yr ardal
Tir agored	Bydd 4m o dir agored drwy'r goedwig ar gyfer llwybr mynediad na ellir ei fapio. Bydd 50m o dir agored o amgylch y cyflenwad dŵr preifat. Ni fydd un parsel tir ym Mynegiad o Ddiddordeb y Creu Coetir Glastir yn cael ei blannu, ac mae'n cyfrif am 20% o dir agored (yn unol â'r canllawiau dalgyloch sensitif i asid).
A yw'r cynllun plannu newydd o fewn ardal mynediad agored?	Nac ydy
A oes coed sefydlog yn bresennol?	Mae pedair derwen aeddfed i'r de, a chlwtwr o goed a drain gwyn i'r gogledd. Ni fydd plannu o dan y llinell drip lle ceir coed derw - caiff llydanddail eu plannu.
Amseru'r plannu newydd	Bydd y coed a'r llwyni'n cael eu plannu rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth

5. Monitro a chynnal a chadw'r safle plannu newydd

Ymgyrch cynnal a chadw	Beth y mae angen ei gynnal a'i gadw?	Pwy fydd yn cynnal a chadw'r safle plannu newydd?	Pryd fydd y gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud?
Rheoli llystyfiant o amgylch y coed	Rheoli llystyfiant (yn enwedig glaswellt, mieri, rhedyn) o amgylch y coed drwy chwistrelli chwynladdwr.	Bydd asiant yn trefnu gweithgaredd cynnal a chadw ac yn defnyddio contractwr chwynladdwr cymeradwy.	Dwywaith bob blwyddyn ym mis Mai a mis Awst nes y bydd y coed wedi sefydlu (o leiaf tair blynedd ar ôl plannu'r coed)
Ailosod coed	Caiff coed sydd wedi marw yn y cynllun plannu newydd eu tagio a bydd yr un rhywogaeth o goed	Asiant	Tagio coed ym mis Awst a mis Medi; ailosod coed rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth bob blwyddyn nes bod yr holl goed wedi'u plannu ar y gyfradd stoc lawn (2,500 o goed/ha)
Ffensio	Gwirio'r ffens o amgylchedd y cynllun plannu newydd ac atgyweirio unrhyw ddifrod er mwyn sicrhau bod y stoc wedi'u cadw	Asiant	O leiaf unwaith bob blwyddyn
Amddiffyn coed	Gwirio bod yr holl gysgodfeydd coed yn ddiogel ac wedi'u gosod yn syth, a bod y gwarchodwyr yn amddiffyn y coed yn gywir. Mae angen cael gwared ar llystyfiant e.e. glaswellt o'r tu mewn i gysgodfeydd coed.	Asiant	O leiaf unwaith bob blwyddyn
Cael gwared ar amddiffynwyr coed	Cael gwared ar amddiffynwyr coed o'r llydanddail pam fod yr holl goed wedi sefydlu, ac na all cwningod a llygod y gwair wneud difrod i goesau'r coed rhagor.	Asiant	Rhwng pump ac wyth mlynedd

Ffyrdd a llwybrau drwy'r goedwig	Cadw mynediad agored drwy'r cynllun plannu newydd gyda sweipio gan dractor	Asiant	Mis Gorffennaf i fis Medi bob blwyddyn
---	--	--------	---

6. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Unigolyn neu sefydliad	Dull o gysylltu	Dyddiad y cysylltwyd	Dyddiad y cafwyd adborth	Eu hymateb	Eich camau gweithredu
Cyngor Cymuned	Llythyr	07/01/2018	14/02/2018	Ni wnaeth y cyngor cymuned wneud sylwadau ar y cynllun plannu newydd arfaethedig	
Enw 1	Llythyr	04/01/2018	10/02/2018	Gofynnwyd i'r perchennog a'r asiant i sicrhau bod y cyflenwad dŵr wedi'i ddiogelu	Bydd 50m o dir agored yn cael ei adael o amgylchedd y cyflenwad dŵr preifat
Enw 2	Llythyr	04/01/2018	-	Dim ymateb	
Enw 3	Llythyr	04/01/2018	08/02/2018	Ysgrifennodd Enw 3 at y perchennog i ddweud ei fod yn cefnogi'r cynllun plannu newydd arfaethedig ar dir fferm ymylol. Mae ei fab yn gweithio yn y diwydiant pren yng nghanolbarth Cymru, ac mae'n teimlo y dylai mwy o goed gael eu plannu yng Nghymru.	
Enw 4	Llythyr	04/01/2018	20/10/2018	Roedd Enw 4 yn gwrthod y cynllun plannu newydd arfaethedig, a mynegodd bryder ynglŷn â cholli bioamrywiaeth ac asideiddio'r dalgylch dŵr.	Cysylltodd yr asiant ag Enw 4 a dweud y bydd y cynllun plannu newydd o fudd i fioamrywiaeth (drwy blannu coed llydanddail a chynyddu'r cynefinoedd i wiwerod coch) ac ni fydd yn asideiddio'r dalgylch. Hysbysodd Enw 4 yr asiant unwaith eto i ddweud ei fod yn poeni llai ynglŷn â'r cynllun plannu arfaethedig

Enw 5	Llythyr	04/01	25/01/2018	Roedd Enw 5 yn llawn pryder y byddai'r conifferau'n rhwystro ei olygfa	Bydd y ffin sy'n agos at yr eiddo'n cael ei blannu gyda llydanddail o 1,600 o goed/ha, gydag ymylon coetir graddedig
-------	---------	-------	------------	--	--

7. Cynllun gweithredu

Rhif Cyfalaf	Cyfeirnod y ddalen	Parsel Tir	Cyfeirnod Map (GWC 001)	Cyfeirnod y Gwaith cyfalaf	Rhif y Gwaith Cyfalaf	Rhywogaethau	Rhywogaethau %	Nifer Arfaethedig
a	*****	****	GWC001	Cymysg Gwell	803	Sbriwsen Sitca	40	4.0ha
						Ffynidwydden Douglas	25	
						Sbriwsen Norwy	10	
						Bedwen lwyd	10	
						Criafolen	5	
						Gwern	5	
						Draenen wen	5	
1b	*****	****	GWC002	Cymysg Gwell	803	Yr un â GWC001	Fel GWC001	15.7ha
1c	*****	****	GWC003	Cymysg Gwell	803	Fel GWC001	Fel GWC001	12.0ha
	*****	****	GWC004	Ffensio	595			1,100m
1d	*****	****	GWC004	Cymysg Gwell	803	Fel GWC001	Fel GWC001	9.0ha
	*****	****	GWC006	Ffensio	595			600m
	*****	****	GWC007	Ffensio	595			900m
1e	*****	****	GWC008	Bioamrywiaeth Frodorol	801	Bedwen lwyd	50	0.5ha
						Criafolen	20	
						Gwern	5	
						Aethnen	5	
1e	*****	****	GWC008	Carbon Brodorol	802	Bedwen lwyd	60	0.5ha
						Criafolen	20	
						Gwern	5	
						Aethnen	5	

						Draenen wen	10	
--	--	--	--	--	--	-------------	----	--

8. Gwybodaeth ofynnol er mwyn cefnogi dilysrwydd y cynllun Creu Coetir Glastir

Dogfennau	Ynglwm: Ydy / Nac Ydy
Cynllun Creu Coetir Glastir	Ydy
Map o'r ardal/ardaloedd plannu	Ydy

Caniatadau ac ymatebion i'r ymgynghoriad	Wedi'u cyflwyno: Do / Naddo / Ddim yn berthnasol
Cyfoeth Naturiol Cymru: Caniatâd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Amherthnasol
CADW: ymateb o fewn 100m o Heneb Gofrestredig	Do
Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol	Do
Dogfennau ychwanegol e.e. arolwg ecolegol, ymgynghoriad cymunedol	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Ymatebion i'r ymgynghoriad e.e. Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol dros 2ha	Do

Gall methu â chyflwyno'r holl wybodaeth ofynnol yn y cam hwn arwain at oedi yn ystod proses wirio'r cynllun Creu Coetir Glastir.

Enghraifft 2 Map Creu Coetir Glastir – Cymysgedd Gwell Creu Coetir Glastir

